

**Ar ddydd Mawrth 16 Tachwedd, 2010 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00 pm**

**PRESENOL: Y Cyng. Trefor Davies (Cadeirydd); R Owen; DR Morgan; DM Hughes; D Sheppard; M Evans; Mrs G Price; Mrs K Walker a'r Clerc**

- 2906 Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. Mrs E Davies; T Lewis a D Jones
- 2907 **Materion Personol:** Dim
- 2908 **Datgan Buddiant Personol / Rhagfarnol:**  
Cyng. K Walker – Cofnod 2911. Cyng. Melvyn Evans – Cofnod 2932  
Gadawodd y cynghorwyr uchod yr ystafell tra roedd y mater roeddent wedi datgan buddiant ynddo'n cael ei drafod.
- 2909 **Cadarnhau Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2010 fel cofnod cywir. Trafodwyd yr eitemau canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:  
**Cofnod 2888- Gwasanaeth Sul y Cofio:** PENDERFYNWYD ysgrifennu i ddiolch i Mrs Lona Jones am gynnal y Gwasanaeth; i'r Heddlu am eu help gyda'r traffig ac i Mr Fred Ralphs am lanhau o amgylch y Gofeb Rhyfel. Mynegodd y Cyngor ei ddiolch i Rhun James hefyd am chwarae'r trymped yn ystod y gwasanaeth.  
**Cofnod 2888 - Mewnlenwad ar safle datblygu:** Derbyniwyd mwy o adroddiadau am sbwriel a gwastraff yn cael ei ddefnyddio fel mewnlennwad ar safle adeiladu ym Mhenrhyncoch a PHENDERFYNWYD cysylltu â'r Gwasanaethau Amgylcheddol unwaith eto.
- 2910 **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan yr Aelodau yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned**  
**02 Tachwedd 2010 – Cyfarfod Ymgynghorol yn Neuadd Rhydypennau gydag Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Ceredigion:** Mynychodd y Cyng. Kari Walker a Melvyn Evans hwn ac adroddwyd mai prif ganolbwynt y cyfarfod oedd cwynion ynghylch diffyg cydnabyddiaeth neu ymateb gan adrannau Ceredigion i bryderon a godwyd gan Gynghorau Cymuned. Dwedodd y Swyddogion oedd yn bresennol fod ymdrechion ar droed i fynd i'r afael â'r broblem hon.  
**11 Tachwedd 2010 – Penmorfa, Aberaeron: Cyfarfod Ymgynghoriad Cymunedol ar y Cyd (yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion):**  
rhoddodd y Cyng. D Sheppard adroddiad manwl o'r Cyfarfod: ar ran yr Heddlu, amlinellodd yr Uwch-arolygydd S Powell welliannau a wnaed mewn ymateb i Gynllun Tair Blynedd yr Heddlu; lefelau troseddu a dal troseddwy ac effeithiau posib Adolygiad Gwariant diweddar y Llywodraeth ar blismona.  
Rhoddodd y Gwasanaethau Tân ac Achub fanylion eu targedau gwelliant ar gyfer y pum mlynedd nesaf a daeth y cyfarfod i ben gyda chyflwyniad gan Ms Bronwen Morgan, Cadeirydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion.  
**Pryderon ynghylch cyflwr y ffordd dros y gaeaf:**  
Rhoddodd **Y Cyng. Melvyn Evans** adroddiad ar drafodaethau a gynhaliwyd gydag Adran Briffyrdd Ceredigion ar lefelau gormodol o ddŵr ar wyneb y ffordd (o ganlyniad i ddŵr ffo o gaeau cyfagos) rhwng y garej bysys ym Mhenrhyncoch â Neuadd y Pentref, a'r problemau all hyn achosi i ddefnyddwyr y ffordd mewn tywydd rhewllyd. Ni wnaethpwyd unrhyw ymrwymiad i raeau'r darn yma o'r ffordd yn ddiatom ond gwneir ymdrech i glirio'r ffosydd a gwella'r draenio, ac mae'n bosib y bydd biniau graean ychwanegol ar gael. PENDERFYNWYD nodi hynny.
- 2911 **Cymeradwyo cais am absenoldeb estynedig:** Mewn llythyr i'r Cyngor, dwedodd y Cynghorydd K Walker y byddai'n gweithio dramor o Ragfyr 2010 a gall fod i ffordd am chwe mis dilynol neu ragor. Gofynnodd i'r Cyngor i ystyried cymeradwyo ei absenoldeb estynedig ymlaen llaw, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 a.85(1). PENDERFYNWYD cytuno i'r cais am absenoldeb estynedig a dymuno pob llwyddiant i'r Cynghorydd Walker gyda'i gwaith dramor. Yn sgil ei absenoldeb arfaethedig, pasiodd y Cyng. Walker yr holl ohebiaeth yn ymwneud â chais SSE am Fferm Wynt yn Nant y Moch (a dderbyniodd fel cynrychiolydd y Cyngor ar Grŵp Cyswllt y Fferm Wynt) i'r Cyng. R Owen, a enwebwyd fel cynrychiolydd yn ei lle.

- Gohebiaeth**
- 2912 **Swyddfa Llys Ynadon Aberaeron:** Cynnig i ddarparu Siaradwr i roi sgwrs ar “Ynadon yn y Gymuned”. PENDERFYNWYD gofyn am Siaradwr i annerch Cyfarfod yn gynnar yn 2011.
- 2913 **SSE Renewables ynghylch Fferm Wynt Nant y Moch:** Ailadrodd y gwahoddiad i gyflwyno sylwadau ar y datblygiad Fferm Wynt arfaethedig. PENDERFYNWYD ei nodi.
- 2914 **Un Llais Cymru:** Gwahoddiad i fynychu Gweithdy Cynllunio Hyfforddiant gan Cymorth Cynllunio Cymru. PENDERFYNWYD ei nodi.
- 2915 **Adroddiad Blynyddol Cantref 2009/10:** PENDERFYNWYD ei gylchredeg
- 2916 **Cymdeithas Dai Canolbarth Cymru:** Gwahoddiad i ail-lansiad Cymdeithas Dai Canolbarth Cymru ar 9fed Rhagfyr, 2010 yn Aberystwyth. Cytunodd y Cadeirydd i'w fynychu os bydd modd.
- 2917 **LICC - Adran Gwasanaethau Tân ac Achub:** Gwahoddiad i wneud sylwadau ar Egwyddorion arfaethedig ar gyfer delio gyda thanau mewn cartrefi. PENDERFYNWYD ei nodi
- 2918 **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion:** Holiadur ar Asesiad o Droseddau ac Anhrefn 2011. PENDERFYNWYD ei gwblhau a'i ddychwelyd.
- 2919 **Adran Briffyrdd Ceredigion – Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2009-10:** PENDERFYNWYD ei gylchredeg.
- 2920 **TraCC :** Copi o werthusiad drafft ar gynigion i agor gorsaf drenau yn Bow Street a Charno: PENDERFYNWYD ei gylchredeg.
- 2921 **Un Llais Cymru - Gwydnwch Cymunedol:** gwahoddiad i Gynghorau i gyflwyno manylion unrhyw fentrau sy'n ceisio harneisio adnoddau ac arbenigedd lleol er mwyn galluogi cymunedau i helpu'u hunain mewn argyfwng. PENDERFYNWYD ystyried y mater ymhellach.
- 2922 **LICC – Arolwg Cynghorau Tref a Chymuned 2010:** PENDERFYNWYD ei gwblhau a'i ddychwelyd.
- 2923 **Arsyllfa Wledig Cymru - Holiadur Gwasanaethau:** PENDERFYNWYD ei gwblhau a'i ddychwelyd.
- Materion Ariannol**
- 2924 **HSBC: balans Cyfrif Cymunedol ar 13.11.10: £2,726.81**
- 2925 **HSBC:** Cais i gyflwyno manylion rhwymedigaethau ac asedau: PENDERFYNWYD cydymffurfio.
- Cytunwyd i dalu'r biliau canlynol:**
- 2926 **Linda Griffiths:** Cyfieithu Hydref 2010 **£63.11** siec 1011
- 2927 **RBL - Apêl y Pabi 2010: £25** siec 1012
- 2928 **Viking Direct – Deunyddiau Swyddfa:** £57.67 + TAW £10.09: **£67.76** siec 1013
- 2929 **Cyng. Trefor Davies – Teithio 42m + teithiwr 38c: £21.42** siec 1014
- 2930 **Cyng. K Walker – Teithio 34m + teithiwr 10c: £17.13** siec 1015
- 2931 **V Clive Davies – Trwsio rheiliau: £1184 + TAW £207.20: £1,391.20** siec 1016  
PENDERFYNWYD diolch i Mr D Davies am gwblhau'r gwaith a chyflwyno'r anfoneb i Allianz Insurance
- Sylwadau ar Gais Cynllunio:**
- 2932 **A100846 Gwarcaeau, Salem, Penrhyncoch:** Codi estyniad deulawr: Dim gwrthwynebiad.
- 2933 **Cyfarfod nesaf y Cyngor: Disgwylir adroddiad yr Archwiliwr Allanol ar Ffurflen Flynyddol y Cyngor am y flwyddyn ariannol yn diwedd 31 Mawrth 2010. Bydd hon yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor ar gyfer ei chymeradwyo a'i llofnodi a rhaid ei dychwelyd i'r Archwiliwr Allanol i'w chwblhau cyn diwedd Rhagfyr 2010. PENDERFYNWYD felly symud dyddiad y Cyfarfod nesaf ymlaen i Ddydd Mawrth 7fed Rhagfyr 2010 am 7.00pm yn Neuadd y Penrhyn**
- 2934 **Cytunwyd i osod yr eitemau canlynol ar yr agenda:**
- Holi Un Llais Cymru am yswiriant ceir pan fydd Cynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd
  - Blociau rhwystr diogelwch wedi disgyn lawr y llethr gyferbyn â Phendorlan, Penbontrhydybeddau
  - Penpompren a garej Cwrt, Penrhyncoch – gwrych yn taflu cysgod dros y golau stryd
  - Mwd a dail ar ymyl y ffordd ac angen glanhau'r ffosydd. Tyllau yn y ffordd ger Cwmcanol.
  - Cais am fin graean ger mynedfa ystâd Glanceulan
  - Pobl yn seiclo ar ôl iddi nosi heb oleuadau ar eu beiciau na dillad adlewyrchol.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.45pm.